**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

**12 Rhagfyr 2023**

**Rhan 1**

## 1 Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr sydd eisoes yn bodoli er mwyn:

- gwneud myfyrwyr y GIG yn gymwys ar gyfer y benthyciad cynhaliaeth llawn;
- gwneud mân gywiriadau i'r diffiniad o berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel dinesydd perthnasol o Afghanistan yn sgil newidiadau i'r rheolau mewnfudo yn Rheoliadau Addysg (Sefydliad Prifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- gwneud mân gywiriad i sicrhau bod person yn cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yng Nghymru mewn achosion lle mae ei riant yn cael ei gyflogi dros dro y tu allan i Gymru a'r DU;
- ymestyn cymhwystra ar gyfer cymorth, statws ffioedd cartref a'r cap ffioedd dysgu i aelodau penodol o deuluoedd gwladolion o Wcráin ac i aelodau ychwanegol o deuluoedd dinasyddion perthnasol o Affganistan;
- ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n dysgu o bell sy'n hawlio Grantiau ar gyfer Dibynyddion fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs;
- terfynu cymhwystra myfyrwyr ôl-raddedig mewn rhai amgylchiadau;
- dileu cyfeiriadau rheoleiddiol diangen at yr Alban; a
- gwneud mân gywiriadau technegol i gyfeiriadau paragraff yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

## 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3 Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2023 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a (b) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998'); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

3.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.7 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.

4.2 Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio rheoliadau cymorth i fyfyrwyr sydd eisoes yn bodoli fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.3 – 4.7.

*Aelodau o deuluoedd gwladolion o Wcráin*

4.3 Bydd Rheoliadau 2023 yn diwygio'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a rheoliadau cysylltiedig i alluogi aelodau o deuluoedd y rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt aros o dan Gynlluniau Wcráin gael eu hystyried yn fyfyrwyr cymwys at ddibenion cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu. Gall aelod o'r teulu gynnwys:

- priod neu bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros o dan un o Gynlluniau Wcráin a oedd yn briod neu'n bartner sifil ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;
- plentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros o dan un o Gynlluniau Wcráin neu blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person y rhoddwyd caniatâd iddo aros o dan un o Gynlluniau Wcráin a oedd yn blentyn/llys-blentyn o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros.

*Aelodau o deuluoedd dinasyddion perthnasol o Affganistan*

4.4 Bydd Rheoliadau 2023 yn gwneud darpariaeth ychwanegol i aelodau o deuluoedd (priod, partner sifil, plentyn dibynnol neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil) personau y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddynt ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiad y rheoliadau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 6.2 o'r Atodiad hwnnw.

*Terfynu cymhwystra rhai myfyrwyr ôl-raddedig*

4.5 Bydd Rheoliadau 2023 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Gradd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 i ddarparu na fydd myfyrwyr mewn categorïau sy'n seiliedig ar warchod a'r rhai sydd â chaniatâd cyfyngedig i aros o dan gynlluniau preswylio'n sefydlog yr UE yn gymwys ar gyfer

cymorth mwyach. Bydd y polisi yn cyd-fynd â'r polisi ar gyfer myfyrwyr israddedig.

*Cynnydd yn y benthyciad cynhaliaeth i fyfyrwyr sy'n gymwys i wneud cais am fwrsariaeth y GIG*

4.6 Bydd Rheoliadau 2023 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i ddarparu y bydd myfyrwyr sy'n gymwys i wneud cais am fwrsariaeth y GIG yn dod yn gymwys ar gyfer y gyfradd uchaf o fenthyciad cynhaliaeth.

*Grantiau ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau dysgu o bell*

4.7 Gwneir diwygiad i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 a fydd yn gosod gofyniad i fyfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs dysgu o bell fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf er mwyn bod yn gymwys i gael Grant ar gyfer Dibynyddion. Caiff esemptiad ei wneud i'r gofyniad hwn i sicrhau cysondeb â darpariaethau tebyg mewn mannau eraill yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys pan fo'r myfyriwr neu berthynas agos yn aelodau o'r lluoedd arfog, fel sydd wedi bod yn bolisi ers peth amser.

*Dileu cyfeiriadau rheoleiddiol diangen at yr Alban*

4.8 Bydd rheoliadau'n cael eu diwygio i ddileu cyfeiriadau at 'Lwfans Gofal Iechyd yr Alban' gan fod cyfeiriadau o'r fath yn ddiangen ar ôl i'r lwfans ddod i ben sawl blwyddyn yn ôl.

4.9 Bydd rheoliadau hefyd yn cael eu diwygio i ddileu cyfeiriad at Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007 gan fod y rheoliadau hyn wedi'u dirymu yn 2022 gan Reoliadau Cymorth i Fyfyrwyr (Yr Alban) 2022.

*Cywiriadau i ddarpariaethau Cymraeg*

4.10 Gwneir diwygiadau i destun Cymraeg Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007). Bydd y rhain yn cywiro rhai cyfeiriadau paragraff penodol.

## 5 Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gan fod rhai o'r gwelliannau yn ofynnol i gywiro a diweddaru'r gyfraith sy'n deillio o newidiadau i reolau mewnfudo ac i ddileu darpariaeth reoleiddiol ddiangen. Mae diwygiadau eraill sy'n ymestyn

cymhwystra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru ar fod yn 'Genedl Noddfa'.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2023.

### 6. Opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

6.1 Os na wneir Rheoliadau 2023, byddai'r goblygiadau fel a ganlyn:

- ni fydd aelodau o deuluoedd y rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt aros o dan Gynlluniau Wcráin yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu, a gallai hyn eu hatal rhag dechrau neu barhau ag addysg uwch, gan waethygu effeithiau dadleoli gwrthdaro;
- ni fyddai rhai aelodau o deuluoedd dinasyddion perthnasol o Affganistan yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd dysgu a'r cap ar ffioedd dysgu, a gallai hyn eu hatal rhag dechrau neu barhau ag addysg uwch a chyfyngu ar eu gallu i ymgartrefu'n llwyddiannus yn y DU;
- byddai myfyrwyr sy'n gymwys i wneud cais am fwrsariaeth y GIG yn parhau i gael mynediad at y gyfradd is o fenthyciad cynhaliaeth yn ystod cyfnod o bwysau sylweddol o ran costau byw, gan rwystro recriwtio i GIG Cymru;
- byddai myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau ôl-raddedig ac sy'n colli eu statws mewnfudo, ond nad oes ganddynt fath arall o ganiatâd mewnfudo ac mae eu cysylltiad â'r DU felly wedi gwanhau'n sylweddol, yn cadw eu cymhwystra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, gan greu costau; a
- byddai myfyrwyr nad ydynt yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs yn gymwys i wneud cais am Grant ar gyfer Dibynyddion gan barhau ag anghysondeb yn y polisi cymorth i fyfyrwyr.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

6.2 Mae gwneud Rheoliadau 2023 yn sicrhau bod y goblygiadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi. Dyma’r dewis sy’n cael ei ffafrio.

### 7. Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 Byddai gadael y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr presennol yn eu lle yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr.

*Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau 2023*

7.2 Mae ymestyn cymhwystra ar gyfer cymorth, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu i aelodau o deuluoedd y rhai sydd â chaniatâd i aros o dan Gynlluniau Wcráin ac i aelodau o deuluoedd rhai Affganiaid yn sicrhau bod manteision addysg uwch yn cael eu hymestyn yn briodol, a bod grwpiau'n cael eu trin yn gyfartal. Mae manteision addysg uwch i'r unigolyn, i'r economi ac i gymdeithas wedi'u hen sefydlu.

7.3 Cyhoeddir data ar nifer y fisas a roddir o dan Gynlluniau'r Wcráin[1] gan y Swyddfa Gartref. Ar 28 Medi 2023, dyma nifer y fisâu lle'r oedd y noddwr yng Nghymru:

- 4,644 (wedi'u noddi gan unigolyn); a
- 4,615 (wedi'u noddi gan Lywodraeth Cymru).

7.4 Cyhoeddir data ar nifer y llwybrau diogel a chyfreithiol a gynigir o dan Bolisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a Chynlluniau Ailsefydlu Dinasyddion Affganistan gan y Swyddfa Gartref[2]. Yn y cyfnod o 2015 hyd at ddiwedd Mehefin 2023, dyma nifer y bobl y cynigiwyd llwybrau diogel a chyfreithiol iddynt i'r DU:

- 11,474 (Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid)
- 9,783 (Cynlluniau Adsefydlu Dinasyddion Affganistan)

7.5 Credir ei bod yn annhebygol y bydd effaith sylweddol ar nifer y myfyrwyr a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a bydd y costau'n cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

7.6 Mae'r diwygiadau sy'n cyflwyno gofyniad diwrnod cyntaf ar gyfer dysgwyr o bell ac sy'n terfynu cymhwystra ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig yn cyfyngu ar gymhwystra yn unol â'r polisi sefydledig ar gyfer grwpiau neu gynhyrchion cymorth arall, gan sicrhau cysondeb o ran polisi. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wrth wneud y diwygiadau; ond efallai y bydd rhai arbedion bach.

[1] https://www.gov.uk/guidance/ukraine-sponsorship-scheme-visa-data-by-country-upper-and-lower-tier-local-authority

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1182527/asylum-summary-jun-2023-tables.ods

7.7 Bydd cynyddu gwerth y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n gymwys i wneud cais am fwrsariaeth y GIG yn cefnogi recriwtio a chadw i GIG Cymru. Ceir amcangyfrif o'r costau isod.

**Mae'r tablau isod yn dangos y costau i gynyddu RRML i fenthyciad cynhaliaeth cyfradd lawn ar gyfer myfyrwyr Bwrsariaeth y GIG o 2024/25**

**Costau'r flwyddyn academaidd**

| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £29,339,000 | £30,436,000 | £31,814,000 | £33,419,000 |
| Nad yw'n arian parod | £2,109,000 | £2,560,000 | £2,651,000 | £2,251,000 |

**Costau'r flwyddyn ariannol**

| | 2024-25 | 20205-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £19,559,000 | £30,070,000 | £31,355,000 | £32,884,000 |
| Nad yw'n arian parod | £1,406,000 | £2,410,000 | £2,621,000 | £2,385,000 |

*Rhagdybiaethau*

Yn seiliedig ar nifer ddiweddaraf y myfyrwyr sy'n derbyn bwrsariaeth GIG gyda thwf o 2% bob blwyddyn

93% yn cymryd y benthyciad uwch

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2023 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## 9. Asesu ar ôl gweithredu

9.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol. Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r rheoliadau ar waith.